**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Mawrth, 2017 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor B. Strong (Chairman)
County Councillor J. Higginson (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, J. Prosser, D. Blakebrough, M. Powell, V. Smith, G. Burrows, R. Chapman, P. Clarke, D. Dovey, G. Down, A. Easson, D. Edwards, R. Edwards, P. Farley, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, L. Guppy, E. Hacket Pain, R. Harris, B. Hayward, M. Hickman, P.A.D. Hobson, G. Howard, D. Jones, P. Jones, S. Jones, S.B. Jones, P. Jordan, P. Murphy, F. Taylor, A. Watts, A. Webb, S. White, K. Williams and A. Wintle

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Will Mclean | Chief Officer for Children and Young People |
| Joy Robson | Head of Finance/Section 151 Officer |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Rachel Jowitt | Head of Waste & Street Services |

**APOLOGIES:**

Councillors J. Crook, D. Evans, S. Howarth and J. Marshall

2. **Adroddiad y Cadeirydd ac unrhyw ddeisebau sydd wedi eu derbyn**

Wrth agor y cyfarfod, mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad ar farwolaeth ddiweddar Mr. David Waring, cyn gynghorydd, Mr B. Llewellyn, cyn gynghorydd sesiwn gyntaf y Cyngor hwn rhwng 1996-1999, a Mr. B. Foulser, Consort y cyn Gadeirydd, J. Foulser. Dangosodd y Cyngor eu parch gyda munud o dawelwch.

Hysbyswyd y Cyngor y cynhelid sesiwn ffotograffig cyn y Cyngor ar 20 Mawrth 2017. Manylion i ddilyn.

Derbyniodd y Cyngor adroddiad y Cadeirydd, gan nodi y cynhelir cyngerdd elusennol yng Nghanolfan Hamdden Trefynwy ar 31 Mawrth, gyda'r elw yn mynd i Gerddoriaeth Gwent ac elusen y Cadeirydd.

Nid oedd unrhyw ddeisebau.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir M. Hickman ddiddordeb personol, nad oedd yn rhagfarnu yn dilyn Cod Ymddygiad Aelodau fel ymddiriedolwr a thrysorydd Ailgylchu Cymunedol Homemarkers.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Mawrth, 2017 at 2.00 pm**

Cytunodd aelodau ddatgan buddiant pellach fel a phryd y bo angen.

## 4. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

### 4.1. Cwestiwn gan Mr M Smith i'r Cynghorydd Sir P Fox

Tynnwyd y cwestiwn yn ôl.

## 5. Cadarnhau'r cofnodion dilynol:

### 5.1. Cyngor Sir - 19 Ionawr 2017

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2017 a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd, gyda'r diwygiad dilynol.

Dylai tudalen 7, paragraff 3 ddarllen 'Mynegodd rhai Aelodau rwystredigaeth fod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth dros y Saesneg, yn benodol mewn galwadau ffôn ac ar arwyddion ffordd. Teimlid ei fod yn achos o'r lleiafrif yn bod yn drech ar y mwyafrif.'

### 5.2. Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir - 26 Ionawr 2017

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2017 a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 6. Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2017

Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2017.

Wrth wneud hynny mynegodd y Cynghorydd F. Taylor rwystredigaeth a siom na chyflwynwyd y drafodaeth am Gontractau Dim Oriau yn ôl i'r Cyngor fel y gofynnwyd, ac na chafodd y mater ei ddatrys yn ystod y tymor hwn o'r Cyngor.

## 7. Derbyn cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2017

Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2017.

## 8. Rhestr o Gynigion

## 9. Adroddiadau Penaethiaid Gweithrediadau

### 9.1. Canolfan ailgylchu gwastraff cartrefi, gorsaf drosglwyddo a strategaeth caffael cludiant

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar y strategaeth arfaethedig i gychwyn ymarferiad caffael ar gyfer contract newydd ar gyfer y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Aelwydydd, Gorsaf Drosglwyddo a gwasanaethau Cludiant Gwastraff Gweddilliol.

Yn ystod ei gyflwyniad, dywedodd y Cynghorydd B. Jones nad oedd y broses yn unrhyw adlewyrchiad ar y gwasanaeth a dderbyniwyd, a chanmolodd Viridor am eu gwaith dros y 20 mlynedd diwethaf a mwy y contract. Fodd bynnag, deellir ei bod yn amser adolygu arferion gorau a chaffaeliad i sicrhau ein bod yn gyfredol, yn addas i'r diben ac yn gydnaws gyda'r adroddiad am y gwasanaeth ailgylchu.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Mawrth, 2017 at 2.00 pm

Yn ystod trafodaeth nodwyd y dilynol:

Roedd rhai Aelodau yn awyddus i ganmol y gwasanaeth rhagorol a gafwyd gan Viridor, a hefyd waith swyddogion a chydweithrediad preswylwyr Sir Fynwy.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Batrouni at y broses dendr a holodd os oedd yn arfer cyffredin dyfarnu yn dilyn y tendr dechreuol, a holodd am y 'trafodaethau cyfyngedig'. Esboniodd Pennaeth Gwastraff a Gwasanaethau Stryd fod hon yn broses gaffael newydd a gyflwynwyd drwy reolau caffael yr Undeb Ewropeaidd ac mai hwn fyddai'r tro cyntaf i Gyngor Sir Fynwy ei defnyddio. Mae'n rhoi cyfle i gynnig dyfarniad uniongyrchol os yw'r bid yn ddigon cryf. Mae trafodaethau cyfyngedig yn cyfeirio at faterion mireinio manylion ac eglurhad.

Ar hyn o bryd, nid oedd swyddogion wedi cael unrhyw awgrym fod Dragon Waste yn bwriadu cyflwyno bid am y contract.

Mewn ymateb i gais am sicrwydd am drosiant, hysbyswyd Aelodau pe byddai contractwr arall yn llwyddiannus, y byddai staff yn trosglwyddo dan drefniadau TUPE (trosglwyddo ymgymeriadau a diogelu cyflogaeth). Sicrhawyd y Cyngor na fyddai ansawdd y gwasanaeth yn newid.

Pan y'i rhoddwyd i bleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

Mae'r Cyngor yn cymeradwyo:

- Y strategaeth caffael fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad, yn benodol:-

i. Natur gwasanaethau (fel y'i diffinnir yn 4.1)
ii. Hyd y contract:- 7 mlynedd + 5
iii. Ffurf y contract:- contract gwasanaeth
iv. Proses caffael:- Cystadleuol gyda thrafodaeth
v. Maen prawf pris/ansawdd:- 55/45
vi. Perfformiad / canlyniadau ansawdd

- Dirprwyo cymeradwyaeth i'r Pennaeth Gwastraff a Gwasanaethau Stryd mewn ymgynghoriad gyda'r Ysgrifennydd Cabinet, Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro i gwblhau dogfennau’r contract, yn cynnwys y matrics gwerthuso, cyn cyhoeddi Hysbysiad OJEU i ddechrau'r broses caffael.
- Dirprwyo'r penderfyniad i ddyfarnu'r Contract i'r Pennaeth Gwastraff a Gwasanaethau Stryd mewn ymgynghoriad gydag Aelodau Cabinet dros Wastraff a Chyllid, Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro ar y ddarpariaeth fod y pris yn parhau o fewn amlen fforddiadwyedd cyfredol y gyllideb bresennol rheoli gwastraff (gan nodi y caiff y canlyniad ei adrodd i'r Cyngor ac y caiff ein partner yn y dyfodol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Dethol).
- Bod y Cyngor i ystyried y penderfyniad i ddyfarnu'r Contract os yw'n fwy na'r amlen cyllideb presennol.

#### 9.2. Adolygiad Ailgylchu - Cynigion Terfynol ar gyfer Casgliadau 2018-2025

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor yn amlinellu'r cynigion terfynol ar gyfer casgliadau ailgylchu er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer cyflwyno gwasanaeth ailgylchu ochr palmant rhwng 2018-2025.

Nodwyd y dilynol yn ystod y drafodeth:

Holodd Aelod am gasgliad wythnosol o fagiau brown, gan awgrymu fod casgliadau bob bythefnos yn ystod misoedd y gaeaf yn addas. Mewn ymateb, dywedwyd nad oedd unrhyw gynnig i newid ond y gellid ystyried hyn fel argymhelliad gan y Cyngor.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Mawrth, 2017 at 2.00 pm**

Cyfeiriodd Aelod at sicrhau fod y gwasanaeth yn gadarn ar gyfer y dyfodol, o ran bod y ddeddfwriaeth oedd yn sail iddo yn deillio o'r Undeb Ewropeaidd, a holodd yr effeithiau yn dilyn Brexit. Hysbyswyd y Cyngor fod deddfwriaeth Ewropeaidd yn nodi isafswm y mae'n rhaid i aelod wladwriaethau ei fabwysiadu. Mae sefyllfa Llywodraeth Cymru yn uwch na rheoliadau Ewrop a'r adborth gan swyddogion a'r gweinidog yw eu bod yn bwriadu cario ymlaen gyda'r agenda presennol ac na fydd Brexit yn effeithio arnynt.

Mewn ymateb i bryderon y byddai casgliadau bob bythefnos yn arwain at wastraff ailgylchu yn cael eu rhoi mewn bagiau du, esboniodd swyddogion y darperir blychau ailgylchu ychwanegol os gwneir cais.

Ategwyd y dylid darparu gwasanaeth yn yr orsaf drosglwyddo sbwriel ar gyfer bagiau gwastraff coch a phorffor. Clywodd y Cyngor y cafodd y gwasanaeth ei ddileu gan fod y gwasanaeth yn cael ei gam-drin mewn modd mawr, a bod dadansoddiad wedi dangos fod 70 % i 80% o'r bagiau yn llawn o wastraff bag du. Bu rhai achosion lle bu preswylwyr yn sarhaus ac yn gorfforol fygythiol i staff yn Viridor. Pe cynhelid y prawf eto, byddai hynny ar sail y gallai gael ei ddileu.

Cyfeiriodd Aelod at gasglu bagiau "teigr" melyn a holodd os gellid addasu'r broses. Esboniwyd fod y gwasanaeth wedi symud i gasgliad bob bythefnos gan arbed £100,000, ac nad oedd unrhyw gynlluniau i newid ar hyn o bryd. Cadarnhaodd cyngor a dderbyniwyd gan yr HSE ei bod yn hollol ddiogel parhau gyda chasgliad bob bythefnos. Anghytunai'r Cynghorydd Easson fod hyn yn dderbyniol o safbwynt glanweithdra, yn neilltuol lle mae nifer o bobl yn byw gyda'i gilydd, a gofynnodd a allai swyddogion edrych ar achosion unigol lle gellid datrys sefyllfaoedd problem fel mater o frys. Cadarnhawyd hyn.

Mewn ymateb i bryderon am y cynnydd posibl mewn tipio anghyfreithlon, rhoddodd y Pennaeth Gwastraff a Gwasanaethau Stryd y Cyngor sicrwydd fod criwiau ar gael i gasglu tipio anghyfreithlon lle gwneir adroddiad am hynny ac na ddisgwylir cynnydd.

Holodd Aelod os oeddem ar ôl awdurdodau eraill yn nhermau mabwysiadu'r newidiadau hyn. Esboniodd y Pennaeth Gwastraff a Gwasanaethau Stryd nad oeddem yn mabwysiadu'r system safonol ar gyfer didoli ar y palmant, a'n bod wedi mynd am amrywiad a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru yn dir canol boddhaol.

Cydnabu Aelod y bu'r adroddiad drwy'r broses gaffael ac roedd yn falch i glywed fod y gwariant ar fagiau llwyd wedi ei atal dros dro ac yn cael ei adolygu.

Roedd pryderon am y broses ymgynghori a chlywodd y Cyngor y cafodd 6500 o breswylwyr eu treialu fel canlyniad i'r newid ac y casglwyd data ansoddol a meintiol. Cafodd sampl o 1000 holiadur 410 ymateb, cyfradd ymateb o 40%.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd na fyddai preswylwyr yn byw mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd dan anfantais fel canlyniad i'r newid. Rhoddwyd sicrwydd i aelodau bod swyddogion yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl, lle disgwylid i breswylwyr adeiladau lan lôn hir neu ffordd breifat fynd â gwastraff i fan casglu, fel gyda'r statws cyfredol. Yn ystod y cyfnod treialu, darparwyd biniau mewn ardaloedd cymunol o fflatiau a fu'n llwyddiannus.

Mewn pleidlais, penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion yn yr adroddiad:

Mae'r Cyngor yn cymeradwyo:

- Cadw egwyddorion gwasanaeth ailgylchu presennol (casglu bagiau coch a phorffor) yn wythnosol.
- Casglu gwydr bob bythefnos mewn cynhwysydd ar wahân (blwch gwyrdd).

i. Lle mae preswylwyr yn codi pryder am y gallu i gludo bocs, bydd y gwasanaeth yn cynnig cadi gwyrdd (tebyg i'r cadi bwyd gwastraff tu allan) a gellir rhoi cymorth pellach os oes angen.

- Caiff bwyd a gwastraff gwyrdd eu casglu ar wahân fel y cymeradwywyd yn flaenorol.
- Cyflwyno newidiadau rhwng Ebrill - Gorffennaf 2018.
- Bod arbedion refeniw o'r newid gwasanaeth yn talu am gost benthyca darbodus i ganiatáu gwariant cyfalaf e.e. newidiadau i'r gorsafoedd trosglwyddo, prynu blychau ac ati yn amodol ar adroddiad pellach i'r cyngor llawn am y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen.
- Y dyluniad gwasanaeth cyffredinol fel y gall y broses caffael ar gyfer y fflyd newydd a dyluniad ac adeiladu'r gorsafoedd trosglwyddo ddechrau.
- Dirprwyo cymeradwyaeth am wneud penderfyniadau i Bennaeth Gwastraff a Gwasanaethau Ailgylchu mewn ymgynghoriad gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Swyddog A151 ar unrhyw fanylion technegol, yn amodol ar i'r newidiadau barhau o fewn amlen cyllido presennol y gwasanaeth.
- Bod y Pwyllgor Dethol a'r Cyngor yn derbyn adroddiad ar weithredu'r newidiadau gwasanaeth ar ôl Gorffennaf 2018 yn meintioli'r buddion a chostau llawn, ac yn modelu cost y gwasanaeth am ei gyfnod oes arfaethedig o 7 mlynedd.
- Adolygu bagiau llwyd ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol gyda golwg ar benderfynu os byddai'n fanteisiol buddsoddi mewn mwy o addysg ac ymwybyddiaeth am wastraff yn hytrach na seilwaith i gynyddu ailgylchu ac adrodd i'r Cabinet drwy'r Pwyllgor Dethol yn Hydref 2017.

### 9.3. Cymeradwyo Cyllideb Gyfalaf Meysydd Parcio 2017/18

Cyflwynwyd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer cyllideb cyfalaf yn 2017/18 ar gyfer gosod offer newydd a gwelliannau i feysydd parcio.

Nodwyd y dilynol yn ystod y drafodaeth:

Gofynnwyd am eglurhad am y sôn am offer a gwella/ailwampio. Holwyd os byddai'n cynnwys darparu mesurau ffisegol mewn rhai meysydd parcio i gyfyngu eu defnydd fel cyrsiau rasio answyddogol, a soniwyd yn neilltuol am Faes Parcio Stryd Gymreig yng Nghas-gwent. Atebodd Aelod y Cabinet bod angen gosod peiriannau tocyn newydd, gan roi dewis o ddulliau talu heblaw darnau arian i breswylwyr. Byddid yn gwella gofodau Bathodyn Glas i'r safon. Yng nghyswllt Maes Parcio Stryd Gymreig, mae ymgynghori yn mynd rhagddo gyda phreswylwyr a busnesau lleol a cheisid datrysiad o fewn y gyllideb.

Cadarnhawyd fod EV yn cyfeirio at Gerbydau Trydan.

Eglurwyd y cafodd yr argymhellion ym mhapur y Cabinet dyddiedig Gorffennaf 2016 eu pasio fel cam 1. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at gam 2 y broses.

Cyfeiriodd Aelod at lesddaliad meysydd parcio, gan gyfeirio at Faes Parcio'r Castell, a gofynnodd a oedd risg posibl o golli incwm. Esboniodd Aelod y Cabinet os ydym yn defnyddio tir ar les, bod hynny'n ddibynnol ar berchennog y tir ond y cynhelir trafodaethau.

Mewn pleidlais, penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion yn yr adroddiad:

- Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cyllidebau cyfalaf a argymhellwyd gan y Cabinet ar 6 Gorffennaf 2016 a fanylir yn yr adroddiad 'Cynigion ar gyfer darparu meysydd parcio cyhoeddus yn y dyfodol gan Gyngor Sir Fynwy':

Bod cyllidebau cyfalaf o (i) ar gyfer peiriannau tocyn newydd mewn meysydd parcio, £300,000 ar gyfer gwella/ailwampio meysydd parcio presennol, creu pwyntiau EV ac arwyddion a bod y rhain yn cael eu cyllido drwy 'buddsoddi i gynilo' yn defnyddio refeniw a gynhyrchir drwy system gorchymyn a rheoli newydd meysydd parcio.

## 10. <u>Adroddiadau Pennaeth Cyllid</u>

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Mawrth, 2017 at 2.00 pm**

**10.1. Penderfyniad Treth Gyngor 2017/18 a Chyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18**

Cyflwynwyd Penderfyniad Treth Gyngor 2017/18 a Chyllidebau Cyfalaf Refeniw a Chyfalaf 2017/18 i'r Cyngor. Caiff y Cyngor ei rwymo gan Statud i amserlenni penodol ar gyfer gosod y Dreth Gyngor ac mae hefyd angen iddo wneud rhai penderfyniadau diffiniedig. Cynlluniwyd yr argymhellion sy'n ffurfio rhan fwyaf yr adroddiad hwn i gydymffurfio gyda'r Darpariaethau Statudol hynny.

Mae'r penderfyniadau a argymhellir hefyd yn dod ynghyd â goblygiadau Treth Gyngor y praeseptiau a hysbyswyd gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Chynghorau Tref a Chymuned, gan felly alluogi'r Cyngor Sir i sefydlu ei brif lefelau Treth Gyngor ar y gwahanol fandiau eiddo o fewn ardal pob Tref neu Gymuned.

Esboniodd Aelod Cabinet Adnoddau, er bod y setliad yn well nag a ragwelwyd, y bu'n broses anodd cyflwyno cyllideb gytbwys. Diolchodd i bob swyddog a gymerodd ran yn y broses am eu gwaith caled yn ystod y trafodaethau.

Hysbysodd yr Aelod Cabinet am argymhelliad diwygiedig fel sy'n dilyn:

2.1 Argymhellir cymeradwyo'r amcangyfrifon refeniw a chyfalaf am y flwyddyn 2017/18 fel y'u hatodir yn Atodiad 1 a 2 gyda'r addasiadau dilynol:

i. Peidio codi ffioedd ar gyfer casgliadau gwastraff Masnach a bod y gwasanaeth yn lle hynny yn anelu i gynyddu'r sylfaen cwsmeriaid i sicrhau'r targed incwm o £10k.
ii. Ychwanegu £300k ychwanegol at gyllideb cyfalaf Grant Cyfleusterau i'r Anabl a bod costau dilynol benthyca yn cael eu cyllido o'r gofod yng nghyllideb refeniw'r Trysorlys.
iii. Bod y cyllidebau cyfalaf ar gyfer meysydd parcio yn cael eu hychwanegu at y gyllideb cyfalaf gyffredinol fel yr amlinellwyd yng Nghyfeirnod 9c ar yr agenda Cyngor hwn.

Nodwyd y pwyntiau dilynol yn ystod trafodaeth:

Dywedodd Arweinydd yr wrthblaid y dylid diolch i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol, er gwaethaf toriadau gan Lywodraeth San Steffan, yn dilyn ychydig o flynyddoedd caled i lywodraeth leol. Roedd yn falch nodi fod yr amcanestyniadau poblogaeth wedi newid, gan olygu cynnydd bach mewn cyllid ar gyfer Sir Fynwy.

Mynegwyd pryderon am gyllidebau ysgol, gan fod cyllidebau'n cael eu torri gan tua £700k. Ychwanegwyd fod ysgolion eu hunain, drwy'r fforwm ysgolion, wedi codi pryderon, gan gydnabod mai staff oedd y sylfaen cost mwyaf. Gofynnwyd cwestiwn hefyd am y cynnydd yng nghost prydau ysgol.

Roedd pryderon hir-sefydlog am briffyrdd, gwasanaethau bws a goleuadau stryd ym mater unigrwydd ac arwahanrwydd o fewn y Sir. Mae'r Grŵp Llafur yn ystyried y dylai mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd fod am wasanaethau eraill y Cyngor ac nid dim ond am ofal cymdeithasol.

Gofynnwyd am esboniad am doriad o £200k yng nghyllid Ysgol Cas-gwent.

Esboniodd Aelod Cabinet dros Addysg yr aiff 36% o'r gyllideb, dros £50m, i ysgolion ac fel canlyniad mae safonau wedi codi. Rydym wedi parhau i gyllido ein hysgolion yn uwch na chyfartaledd Cymru, gan fod yr ail gyllidwr uchaf, gyda chyllid fesul disgybl £300 yn fwy nag awdurdod cyfagos. Yng nghyswllt Ysgol Cas-gwent, nodwyd y gwnaed gwaith gwych yn codi

niferoedd, ond bod hyn wedi gostwng yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, felly mae cyllid wedi gostwng gan y caiff ysgolion eu cyllido fesul disgybl.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod ymrwymiad llwyr yn parhau i osod pwll newydd, gyda gwell cyfleusterau hamdden, yn Nhrefynwy. Bu buddsoddiad o £2m mewn priffyrdd, cynnydd sylweddol mewn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ac ymrwymiad i'r Fargen Ddinesig. Fe'i cymerwyd fel canmoliaeth na fu unrhyw opsiynau eraill ar gyfer y gyllideb gan yr wrthblaid. Mae cyllid ysgolion yn bryder ond cafodd ei gynnal a rhoddwyd blaenoriaeth iddo oherwydd toriadau enfawr mewn meysydd eraill.

Nododd Aelod Annibynnol fod y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn parhau ar gyllideb oherwydd bod y Cyngor wedi cymeradwyo £11m ychwanegol o fenthyca. Mae angen £6.8m ychwanegol ar gyfer pwll Trefynwy, gan godi pryder am ddiffyg rheolaeth ariannol.

Dywedodd Aelod Annibynnol fod Llywodraeth Cymru a hefyd Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn gostwng cyllidebau mewn modd systematig, ar draul ein plant. Holodd am y cyfanswm incwm oedd angen ei gynhyrchu i gael cyllideb gytbwys, gan sôn am anesmwythyd rhoi arian trethdalwyr mewn risg er mwyn ceisio creu incwm. Mynegwyd siom fod neuaddau pentref yn gorfod codi cyllid i geisio talu treth o 20%, yn neilltuol o ystyried bod gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaethau na all yr Awdurdod eu darparu.

Canmolodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau y gyllideb a nodi'r gefnogaeth ar gyfer pobl agored i niwed.

Cyfeiriodd Aelod at ei ward a chanmolodd weithredoedd swyddogion y Cyngor, gan nodi fod Cyngor Sir Fynwy yn gyngor sy'n gwrando, yn gweithredu mewn cyfyngiadau ariannol difrifol. Ychwanegol ein bod yn llwyddo i gynnal gwasanaethau yn hytrach na'u cau. Ystyrid ei bod yn gyllideb gytbwys ac fe'i cymeradwyodd i'r Cyngor.

Holodd Aelod pa mor dda yr oedd y Cabinet yn craffu'r papurau cyllideb a pha mor dda maent yn deall yr effaith ar gymunedau.

Yng nghyswllt sylwadau am bwll nofio Trefynwy, esboniodd yr Aelod Cabinet dros Fenter nad oedd Cyngor Sir Fynwy wedi benthyca £11m fel yr awgrymwyd, gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu hanner y cyllid hwnnw. Roedd yn falch i nodi fod y Cynghorydd Hayward yn cydnabod y byddai'r pwll nofio yn cael ei adeiladu.

Dywedwyd y dylai Cyngor Sir Fynwy gael system lle mae'r holl Aelodau'n cymryd rhan ddigonol yn y broses cyllideb ac y gallant wneud cyfraniadau ystyrlon, cynnar.

Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben ac mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:

- Cymeradwyo'r amcangyfrifon refeniw a chyfalaf ar gyfer y flwyddyn 2017/18 fel y'u cyflwynir yn Atodiad 1 a 2 gyda'r addasiadau dilynol:

i. Peidio cynyddu'r ffioedd am gasgliadau gwastraff Masnach a bod y gwasanaeth yn lle hynny yn ceisio cynyddu'r sylfaen cwsmeriaid i gyflawni'r targed incwm o £10k.
ii. Ychwanegu £300k ychwanegol at gyllideb cyfalaf Grant Cyfleusterau i'r Anabl, a bod costau dilynol benthyca yn cael eu cyllido o'r gofod yng nghyllideb refeniw y Trysorlys.
iii. Ychwanegu'r cyllidebau cyfalaf ar gyfer meysydd parcio i'r gyllideb gyfalaf gyffredinol fel y'i hamlinellir yn eitem 9c ar agenda'r Cyngor hwn.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Mawrth, 2017 at 2.00 pm**

- Nodi bod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2017, wedi cyfrif y symiau a nodir isod ar gyfer y flwyddyn 2017/18 yn unol ag adrannau 32 a 33 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("y Ddeddf").

Er gwybodaeth, cafodd adrannau 32 a 33 Deddf 1992 eu diwygio'n helaeth gan Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Caiff y ddwy eu diwygio ymhellach gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Diwygio Cyfrifiadau Gofynnol) (Cymru) 2002 ("rheoliadau 2002") a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Diwygio Cyfrifiadau Gofynnol) (Cymru) 2013. Caiff Adran 33 ei diwygio ymhellach gan Orchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cyfrifiad Swm Sylfaenol Treth Gyngor) (Cymru) 1996. Rhoddwyd ystyriaeth i'r holl ddiwygiadau deddfwriaethol a statudol wrth gyfrif y symiau dilynol:

(a) 45,537.71 yw'r swm a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33 y Ddeddf a'r Rheoliadau (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau 1999 rhif 2935), fel ei sylfaen Treth Gyngor am y flwyddyn;
(b) Rhan o Ardal y Cyngor, sef y symiau a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34 y Ddeddf, fel symiau ei sylfaen Treth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn cyfeirio atynt:

Bod y symiau dilynol yn awr yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2017/18 yn unol ag Adrannau 32 i 36 y ddeddf ac adrannau 47 a 49 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (fel y'i diwygiwyd):

(a) £148,152,649 sef swm cronnus amcangyfrifon y Cyngor am yr eitemau a nodir yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf llai swm cronnus amcangyfrifon y Cyngor am yr eitemau a nodir yn Adran 32 (3) (a) a (c) y Ddeddf a gafodd eu cyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, fel ei gofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn.
(b) £91,798,934 sef swm cronnus y mae'r Cyngor yn amcangyfrif fydd yn daladwy am y flwyddyn i'w chronfa Cyngor yng nghyswllt trethi annomestig a ail-ddosberthir a grant cymorth refeniw yn unol ag Adran 33 (3)
(c) £6,000 sef y gost i'r awdurdod o gymorth treth annomestig ar ddisgresiwn y rhagwelir y caiff ei ddyfarnu (dan adrannau 47 a 49 Deddf Cyllid Llywodraeth 1988, fel y'i diwygiwyd).
(d) £1,237.65 sef y swm yn 2.3(a) a 2.3(c) uchod llai swm 2.3b (uchod, oll wedi eu rhannu gan y swm yn 2.2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn
(e) £2,479,952 sef swm cronnus yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34 y Ddeddf (Praeseptiau Tref a Chymuned)
(f) £1,183.19 sef y swm yn 2.3(d) uchod llai'r canlyniad a roddwyd gan rannu'r swm yn 2.3(e) uchod gan y swm yn 2.2(a) uchod a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle nad oes eitemau arbennig.
(g) Rhan o ardal y Cyngor, sef symiau'r eitem neu eitemau arbennig yn ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodir uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y symiau yn 2.2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol:

(h) Mae'r Ardal Cyngor Sir, sef y symiau a geir drwy luosi'r swm yn 2.3(f) uchod gan y swm sydd, yn y gyfran a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn weithredol i'r anheddau a restrir mewn band prisiant neilltuol a rennir gan y nifer sydd yn y gyfran honno yn berthnasol i anheddau a restrir ym Mand D prisiant a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau y rhoddir ystyriaeth iddynt am y flwyddyn yng nghyswllt categorïau anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisiant.

(i) Rhan o Ardal y Cyngor, sef y symiau a roddir drwy luosi'r symiau yn 2.3(g) a 2.3(h) uchod gan y nifer sydd, yn y gyfran a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf yn weithredol i anheddau a restrir yn y band prisiant neilltuol a rannwyd gan y rhif sydd yn y gyfran honno yn berthnasol i anheddau a restrir ym Mand Prisiant D a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau y rhoddir ystyriaeth iddynt ar gyfer y flwyddyn yng nghyswllt categorïau'r anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisiant:-

• Nodi ar gyfer blwyddyn 2017/18 bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent wedi hysbysu'r symiau dilynol mewn praeseptiau a gyhoeddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 y Ddeddf, ar gyfer pob un o'r anheddau a restrir uchod:-

• Ar ôl cyfrif y cronnus ym mhob achos o'r symiau yn 2.3(i) a 2.4 uchod, mae'r Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) y Ddeddf, drwy hyn yn gosod y symiau dilynol fel y symiau o Dreth Gyngor am y flwyddyn 2017/18 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir islaw:-

• Awdurdodi Mrs J. Robson, Mr M. Howcroft, Miss R. Donovan, Mrs. S. Deacy, Mrs. W. Woods a Mrs. S. Knight dan Adran 223 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i erlyn ac ymddangos ar ran Cyngor Sir Fynwy mewn trafodion gerbron y Llys Ynadon ar gyfer diben gwneud cais am Orchmynion Rhwymedigaeth yng nghyswllt Treth Gyngor a Threthi Annomestig.

**10.2. Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys a Datganiad Strategaeth, Datganiad Polisi MRP a Strategaeth Buddsoddi 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor i fabwysiadu'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys blynyddol a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cynnwys y Strategaethau Buddsoddi a Benthyca ar gyfer 2017/18 i 2020/21 a'r Isafswm Datganiad Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2017/18 ar Atodiad C.

Caiff y strategaeth a pholisi arfaethedig eu monitro yn ystod y flwyddyn gan y Pwyllgor Archwilio.

Nodwyd y pwyntiau dilynol yn ystod trafodaeth:

Mewn ymateb i gwestiwn parthed benthyca mewnol, dywedodd Pennaeth Cynorthwyol Cyllid mai hwn yw'r trefniant lle gallwn edrych ar ein balans arian ar unrhyw amser penodol ac ystyried defnyddio'r adnoddau hynny i gyllido agweddau rhaglen cyfalaf ac osgoi benthyca allanol. O ran

bod yn strategaeth tymor byr, mae'n dibynnu pa mor hir mae derbyniadau cyfalaf a derbyniadau refeniw cyffredinol.

Yng nghyswllt cwestiwn am gyfraddau llog, mae Rheoli Trysorlys yn ystyried y gall cyfraddau llog ostwng i lefel negyddol cyn iddynt ddechrau cynyddu. Caiff trethi eu monitro ar sail chwarterol ac nid ydynt yn symud llawer ar hyn o bryd.

Atgoffwyd aelodau fod newidiadau i'r Polisi MRP yn newid llif arian yn hytrach nag arbediad. Mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd Pennaeth Cynorthwyol Cyllid roi dadansoddiad o'r canlyniadau pe byddem wedi parhau gyda'r dull gweithredu blaenorol.

Yn nhermau buddsoddiadau moesegol, esboniodd Pennaeth Cynorthwyol Cyllid mai'r flaenoriaeth oedd diogelu arian a fuddsoddwyd. Mae'r ffocws pennaf ar sefydliadau gradd A dwbl. Gall gweithio drwy bwy sy'n manteisio o'r buddsoddiadau fo yn broblemus, ond nid oes dim yn atal cynghorwyr rhag penderfynu ar bolisi moesegol moesol ar fuddsoddiadau pe dymunent.

Mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor ar yr argymhelliad:

• Argymhellir bod y Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2017/18 (Atodiad 2) a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a Strategaethau Buddsoddi a Benthyca 2017/1i i 202/21 arfaethedig (Atodiad 1), yn cynnwys Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2017/18 yn Atodiad C ynghyd â'r Terfynau Trysorlys sydd eu hangen gan adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003.

**The meeting ended at 4.40 pm**